

Bwrdd Taliadau Cynulliad
Cenedlaethol Cymru

—
Remuneration Board of the
National Assembly for Wales

25 Hydref 2017

Annwyl Aelod Cynulliad,

Cyfarfu'r Bwrdd Taliadau ar 12 Hydref 2017. Ceir crynodeb yma o drafodaeth a phenderfyniadau'r Bwrdd ynghyd â diweddariad bras o'i raglen waith.

Y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad

Hysbyswyd y Bwrdd fod Ieuan Wyn Jones (cyn Aelod Cynulliad Plaid Cymru) wedi'i enwebu i fod yn un o'r Ymddiriedolwyr a enwebwyd gan Aelodau i'r Bwrdd Taliadau i gymryd lle Gareth Jones (cyn Aelod Cynulliad Plaid Cymru). Cymeradwyodd y Bwrdd yr enwebiad ac, ar fater ar wahân, nodwyd y goblygiadau yn sgil y ffaith bod y Lwfans Blynyddol yn lleihau.

Adolygiad o gymorth staffio i Aelodau

Trafododd y Bwrdd bapur cwmpasu ar gyfer ei adolygiad o gymorth staffio i Aelodau. Fel rhan o'r gwaith paratoi, ymwelodd y Bwrdd â sampl o swyddfeydd yr Aelodau yn Ne Cymru ar ddydd Mawrth 10 Hydref a dydd Mercher 11 Hydref er mwyn deall yn well y gwaith a wneir gan Staff Cymorth a'r prif broblemau y maent yn eu hwynebu.

Yn yr un modd â'r llynedd, pan gynhaliwyd ymweliadau tebyg â swyddfeydd Gogledd Cymru, roedd y Bwrdd wirioneddol yn gwerthfawrogi amser a chymorth y sawl yr ymwelwyd â hwy. Roedd y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r trafodaethau hyn, a chyfarfodydd diweddar y Grwpiau Cynrychioli ar gyfer Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a'r Aelodau Cynulliad eu hunain, o gymorth i lywio trafodaethau'r Bwrdd wrth ystyried y papur cwmpasu.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6331
E-bost: Taliadau@cynulliad.cymru

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Ymhellach i'r trafodaethau hyn, cytunodd y Bwrdd ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer ei adolygiad:

- Bydd y Bwrdd yn adolygu tystiolaeth bresennol a thystiolaeth newydd sy'n ymwneud â'r lwfans staffio a ddarperir i Aelodau, i sicrhau bod y gefnogaeth ariannol sydd ar gael yn cefnogi pwrpas strategol y Cynulliad ac yn hwyluso gwaith yr Aelodau ynghyd â sicrhau bod y system cefnogaeth ariannol i Aelodau yn gadarn, clir, tryloyw, cynaliadwy ac yn cynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr.
- Bydd yr adolygiad yn ystyried:
 - digonolrwydd lefel y gefnogaeth a roddir i Aelodau;
 - pa mor hyblyg yw'r system gymorth gyfredol ar gyfer Aelodau, ac i ba raddau y'i gweithredir; a
 - addasrwydd telerau ac amodau cyfredol y Staff Cymorth.

Bydd yr adolygiad yn dechrau ym mis Hydref 2017 a bydd yn cyflwyno set o argymhellion i ymgynghori arnynt â rhanddeiliaid yn ystod haf 2018. Cyhoeddir yr adroddiad terfynol yn ddiweddarach yn 2018.

Cytunodd y Bwrdd hefyd ei bod yn bosibl y bydd angen ailedrych ar rai o'r argymhellion i baratoi ar gyfer y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad i adlewyrchu unrhyw ddiwygio posibl i'r Cynulliad.

Bydd y Bwrdd yn parhau â'r broses o gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad hwn dros y misoedd sydd i ddod a bydd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau a'u Staff Cymorth wrth i'r adolygiad fynd rhagddo.

Goblygiadau diwygio etholiadol y Cynulliad ar waith y Bwrdd

Gwahoddodd y Bwrdd yr Athro Laura McAllister, Cadeirydd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i'w gyfarfod i ddarparu trosolwg o faterion o fewn cylch gwaith y Panel a allai fod yn berthnasol i Benderfyniad y Bwrdd ar gyfer y Chweched Cynulliad. Bydd y Pwyllgor yn trafod goblygiadau gwaith y Panel unwaith i'r argymhellion gael eu cyhoeddi ac unwaith i'r Comisiwn ystyried ei ymateb.

Materion eraill

Nododd y Bwrdd bapur yn amlinellu'r broses ar gyfer hawliadau, apeliadau ac achosion busnes a rôl y Bwrdd mewn perthynas â'r rhain. Atgoffir Aelodau a'u Staff Cymorth y gall y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau ddarparu eglurder ynghylch y prosesau.

Cytunodd y Bwrdd y caiff canlyniadau'r arolwg diweddar ar gyfer Aelodau a'u Staff Cymorth ynghylch effeithiolrwydd y Penderfyniad eu defnyddio i lywio rhaglen waith y Bwrdd ac y gellid cyfeirio at elfennau perthnasol a'u cyhoeddi

wrth i'r Bwrdd gynnal adolygiad o'r Penderfyniad a'i adolygiad o gymorth staffio i'r Aelodau. Cyhoeddir crynodeb hefyd yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017-18.

Trafododd y Bwrdd nifer o faterion mewn perthynas â diogelwch swyddfeydd yr Aelodau a chytunwyd i drafod y rhain mewn llythyr arall i'r Aelodau.

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan Gomisiwn y Cynulliad ynghylch meddalwedd rheoli gweithwyr achos i'r Aelodau. Cytunodd y Bwrdd i ailedrych ar unrhyw oblygiadau i'r Penderfyniad fel rhan o'r adolygiad blynyddol o lwfans costau swyddfa ym mis Ionawr 2018.

Elfen bwysig o strategaeth y Bwrdd yw gwella'r modd y mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu ag Aelodau, staff a'r cyhoedd. Cytunodd y Bwrdd i wella ei bresenoldeb ar-lein trwy ddatblygu meicrosafle annibynnol ar gyfer y Bwrdd a gwneud rhagor o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol fel y bo'n briodol i godi ymwybyddiaeth o waith y Bwrdd a sut y mae'n gwneud penderfyniadau i fod yn fwy tryloyw.

Caiff y llythyr hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan hefyd, yn ôl ein harfer. Os hoffech drafod unrhyw beth gyda mi, neu gydag un o'm cyd-aelodau ar y Bwrdd, mae croeso ichi gysylltu â mi drwy'r ysgrifenyddiaeth.

Cofion gorau,



Y Fonesig Dawn Primarolo
Cadeirydd
Y Bwrdd Taliadau